# TREDEGARVILLE



## GWERTHUSIAD O'R ARDAL GADWRAETH

CAERDYDD

CARDIFF
CAERDYDD

2008

# cynnwys


## 1. CYFLWYNIAD
1.1 Cefndir
1.2 Gwerthusiadau Ardal Gadwraeth
1.3 Cyd-destun y Polisi

## 2. ARWYDDOCÂD HANESYDDOL TREDEGARVILLE
2.1 Gwreiddiau a Datblygiad Hanesyddol yr Ardal
2.2 Diddordeb Pensaernïol Arbennig yr Ardal

## 3. ASESU CYMERIAD YR ARDAL
3.1 Lle o Ansawdd Trawiadol
3.2 Presenoldeb Adeiladau Tirnod a Nodweddion Tirwedd
3.3 Hierarchaeth Mannau Cyhoeddus a Phreifat
3.4 Deunyddiau Lleol neu Anarferol o Ansawdd Uchel yn y Treflun
3.5 Manylion Pensaernïol o Ansawdd Uchel
3.6 Tirlunio Caled a Meddal o Ansawdd Uchel

## 4. FFRAMWAITH AR GYFER GWEITHREDU

## 5 ARGYMHELLION

## 6. YMGYNGHORIAD

Atodiad 1 - Canllaw i Berchnogion Tai a Datblygwyr

Atodiad 2 – Cyngor am Goed a Thirlunio

Atodiad 3 – Adeiladau Rhestredig yn yr Ardal Gadwraeth

Atodiad 4 – Geirfa

Atodiad 5 – Adolygu'r Ffin

Llyfryddiaeth a Chanllawiau

Diolchiadau

# 1 cyflwyniad

## 1.1 Ardaloedd Cadwraeth - Cefndir

Mae Ardaloedd Cadwraeth yn ardaloedd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig. Gwneir penderfyniad ynghylch dynodi Ardal Gadwraeth yn dilyn asesiad o gymeriad yr ardal dan sylw. Mae hyn yn aml yn cynnwys mwy na'r adeiladau yn unig. Mae trefn y ffyrdd, y strydoedd, coed ac ardaloedd gwyrdd oll yn cyfrannu at ansawdd ardal. Mae dynodi ardal yn un gadwraeth yn gwarchod ei chymeriad ac i sicrhau hyn, mae gan y Cyngor fwy o reolaeth dros ddymchwel adeiladau neu newid adeiladau mewn ffyrdd bychain, ac hefyd wrth warchod coed.

## 1.2 Gwerthusiadau Ardal Gadwraeth

Mae'n ddyletswydd ar y Cyngor i adolygu Ardaloedd Cadwraeth i benderfynu a oes angen diwygio eu ffiniau ac i ddarganfod pethau y gellid eu gwneud i wella a gwarchod yr Ardal Gadwraeth. Mae Strategaeth Ardal Gadwraeth wedi ei chreu i reoli'r broses hon. Mae'r Strategaeth yn nodi blaenoriaethau'r ddinas, a'r meini prawf i'w defnyddio wrth asesu ardaloedd cyfredol a newydd. Fe'u gwelir yn Adran 4.

## 1.3 Cyd-destun y Polisi

Rhan allweddol o'r gwaith o werthuso yw diffinio cymeriad yr Ardal Gadwraeth, a pharatoi canllawiau priodol. Gall polisïau eraill o fewn y fframwaith cynllunio statudol gynorthwyo â'r gwaith hwn. Darperir hyn drwy Gynllun Datblygu Unedol Caerdydd, tan fydd Cynllun Datblygu Lleol wedi cael ei baratoi.


Ar ôl ymgynghori, mabwysiadwyd darganfyddiadau gwerthusiad Ardal Gadwraeth The Parade/The Walk yn Rhagfyr 2008, ac ailenwyd yr ardal yn Ardal Gadwraeth Tredegarville. Mae ei argymhellion bellach yn cyd-fynd â'r Strategaeth Canol y Ddinas fabwysiedig, sy'n cynnwys yr ardal gadwraeth o fewn yr is-ardal 'ymylol'. Mae'r Strategaeth yn darparu fframwaith ar gyfer twf a datblygiad canol y ddinas rhwng 2007 a 2010 ac ynddo cydnabyddir cyfraniad treftadaeth a diwylliant i'r ddinas. Ailadroddir amcanion allweddol y Strategaeth ar gyfer treftadaeth yn adrannau olaf y ddogfen hon ac maent yn darparu'r fframwaith strategol ar gyfer bwrw ymlaen â chanfyddiadau'r gwerthusiad.

# 2 cyd - destun hanesyddol

## 2.1 Gwreiddiau a Datblygiad Hanesyddol yr Ardal

Er i Crockherbtown ddod i'r amlwg fel maestref sylweddol i'r dwyrain o Gaerdydd yn yr oesoedd canol, arhosodd y tir tu hwnt i'r ardal hon yn agored tan ddiwedd y 19eg ganrif. Yn y cyfnod hwn roedd Caerdydd yn dechrau dod i'r amlwg fel porthladd pwysig ar gyfer allforio glo a dur o Gymoedd y De a thu hwnt. Yn sgîl trawsnewid Caerdydd o fwrdeistref ganoloesol i un o borthladdoedd mwyaf Gorllewin Ewrop, tyfodd y maestrefi ar bob ochr i'r waliau canoloesol yn gyflym wrth i'r perchnogion tir weld potensial ariannol prydlesu eu tir ar gyfer adeiladu.

### Map 1878 yr Arolwg Ordnans




Dechreuwyd datblygu maestrefi'r dwyrain yn yr 1850au gan Charles Morgan o Ystâd Tredegar. Ef a gynlluniodd grid o bedair stryd newydd i'r dwyrain o Blas Windsor a Rheilffordd Dyffryn Taf ac i'r gogledd o Heol Casnewydd. Enwyd y strydoedd hyn yn The Parade, The Walk, West Grove ac East Grove, ac fe'u hadwaenir gyda'i gilydd yn 'Tredegarville'. Adeiladwyd Rheilffordd Dyffryn Taf, ac, yn ddiweddarach, Rheilffordd Cwm Rhymni i gludo nwyddau i lawr o'r cymoedd i Ddociau Caerdydd ac roeddent yn rhedeg wrth ymyl Tredegarville gan wahanu'r ardal oddi wrth y ddinas ei hunan. Adeiladwyd gorsaf deithwyr Tredegarville yr 1870au, i wasanaethu'r nifer cynyddol o drigolion maestrefol. I'r gogledd o hon, sefydlwyd Ystâd Homfray yn faestref ar wahân a oedd yn cynnwys strydoedd 'llai crand' megis Northcote Street, Bedford Street, Penlline Street a Richmond Road. Y cam olaf yn natblygiad Tredegarville oedd uno'r ddwy faestref hon. Cyflawnwyd hyn yn niwedd yr 1860au trwy estyn Richmond Road tua'r de mewn siâp crwm i gysylltu â West Grove. Cwblhawyd y cyswllt hwn pan orffennwyd adeiladu Grove House (a adwaenir bellach fel Y Plasty) yn 1896.







- Awyrlun o droad yr ugeinfed ganrif
- East Grove
- Eglwys y Bedyddwyr Tredegarville











• Cwblhawyd gosodiad cynnar Ystâd Tredegarville wrth godi Grove House yn 1896.

## Map 1901 yr Arolwg Ordnans




## Map 1942 yr Arolwg Ordnans



# 3 asesu cymeriad

Mae nifer o nodweddion allweddol wedi eu nodi i gynorthwyo â'r gwerthusiad o'r ardal. sef:

- Lle o ansawdd trawiadol;
- Presenoldeb adeiladau tirnod a nodweddion tirwedd;
- Hierarchaeth mannau cyhoeddus a phreifat;
- Deunyddiau lleol neu anarferol o ansawdd uchel yn y treflun;
- Manylion pensaernïol o ansawdd uchel;
- Tirlunio caled a meddal o ansawdd uchel.

## 3.1 Lle o Ansawdd Trawiadol

Cynlluniwyd Tredegarville yn un o faestrefi cyntaf Caerdydd ar adeg pan oedd y ddinas yn tyfu o ran cyfoeth a maint. Fel y cyfryw, mae'r ardal hon â hanes nodedig ac unigryw, a adlewyrchir yn yr arddull pensaernïol ac yn ei chysylltiad ag Ystâd Tredegar. Er ei bod bellach yn rhan o faestref fawr y Rhath yng ngogledd-ddwyrain y ddinas, mae llawer o bobl yn dal i gyfeirio at yr ardal fel 'Tredegarville'. Yn ychwanegol, tra bo llawer o gymeriad hanesyddol yr estyniadau maestrefol amgylchynol wedi'i golli, mae Tredegarville wedi cadw ei chyfanrwydd pensaernïol a'i strydlun hanesyddol.

Daw ansawdd pensaernïol nodedig yr ardal yn amlwg wrth ddynesu at bob un o'i pedair mynedfa. O Heol Casnewydd a Heol y Plwca, mae'r amgylchedd adeiledig yn newid o flociau swyddfeydd modern ar hyd priffyrdd prysur i dai teras Fictoraidd, llai o faint, a Filas mewn parau ar hyd strydoedd distawach, coediog â llai o draffig.

Yn hanesyddol, ardal breswyl yw Tredegarville ond mae hefyd wedi cynnwys rhai adeiladau dinesig megis y Plasty ac amryw o gyfleusterau addysgol. Er bod y rhain i'w gweld hyd heddiw, yn y gorffennol mwyaf diweddar mae Tredegarville ac yn enwedig The Parade, wedi dod yn lleoliad poblogaidd ar gyfer darparwyr gwasanaeth preifat, yn benodol deintyddion, meddygfeydd a swyddfeydd eraill. Ar y cyfan, nid yw hyn wedi cael effaith arwyddocaol ar yr amgylchedd adeiledig hanesyddol. Fodd bynnag, mae eu cyflwyno wedi cael effaith ar y galw am lefydd parcio arhosiad byr yn yr ardal, gan gyfrannu ar y lefelau uchel o barcio ar y ffordd ac yng ngerddi blaen y tai.

Gan fod nifer o adeiladau prifysgol ac addysg bellach o fewn yr ardal ac wrth ei hymyl, mae bywiogrwydd a phrysurdeb y boblogaeth myfyrwyr yn amlwg i unrhyw un sy'n dod yno yn ystod y dydd. Gyda'r nos, fodd bynnag, daw awyrgylch distawach, ond ynysig braidd, i gymryd lle gweithgarwch y cerddwyr yn yr ardal.

Ledled yr ardal, mae'r adeiladau wedi'u lleoli yn ôl oddi wrth y stryd o fewn terfynau ffiniol eglur. Mae planhigion a gwrychoedd yn ysgafnhau llawer ar y terfynau hyn, ac mae'r strydlun wedi'i fframio â choed aeddfed niferus, sy'n gollddail yn bennaf. Mae'r 'glasu' hwn yn amlygu'r gwahaniaeth rhwng Tredegarville a'r ardaloedd cyfagos. Nodwedd arall sy'n gwneud yr ardal hon yn wahanol i'r rhai o amgylch yw'r arwyddion stryd Fictoraidd. Er nad yw hyn yn unffurf trwy'r ardal gyfan, mae nifer o enghreifftiau diddorol o blatiau arwydd Fictoraidd, gan gynnwys rhai â bysedd yn pwyntio.







- 28 The Parade
- 21 The Walk
- 42 The Parade










- Arwydd stryd cynnar
- Y Plasty
- Mae'r ardal yn arddangos cymysgedd o fanylion gothig a chlasurol.

## 3.2 Presenoldeb Adeiladau Tirnod a Nodweddion Tirwedd

Ar gyfer y gwerthusiad hwn, adeilad tirnod yw un sydd â chysylltiadau cymdeithasol a hanesyddol arwyddocaol gyda datblygiad yr ardal, sy'n unigryw yn ei leoliad, ac sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at gymeriad yr ardal.

Wrth ddynesu at yr ardal o'r gogledd ar hyd Richmond Road, bydd presenoldeb adeiladau tirnod yn diffinio llawer o ffin ogleddol yr Ardal Gadwraeth. Wrth i Richmond Road droi tua'r de i mewn i West Grove, gwelir nifer o adeiladau tirnod. Y mwyaf nodedig yw ffasâd brics coch, ffug-Sioraidd Ysgol Kingst Monkton a'r waliau ag arwyneb craig o Dywodfaen Pennant yn Speakers House a'r Plasty, sy'n adeilad Rhestredig Gradd 2. O'r de, mae'r Plasty yn cynnig golygfa drawiadol, ac mae gardd sylweddol gyda pherthi bocs a nifer o goed collddail aeddfed o'i hamgylch yn ysgafnhau'r cyfan. Ar hyd West Grove, mae amrywiaeth o goed yn fframio'r olygfa ac adeiladau tirnod megis James Howell House gyda'i ffoli Megalithig Rhestredig Gradd 2, yr Eglwys Undodaidd a Labordy Iechyd Morgannwg Ganol, sydd oll yn Adeiladau Rhestredig Gradd 2.

Wrth ddynesu at yr ardal o The Parade (yn y gorllewin) ac East Grove (yn y de) gwelir Eglwys Bedyddwyr Tredegarville ar y gyffordd rhwng y ddwy stryd. Mae hwn yn adeilad tirnod arwyddocaol, a hefyd felly Goleg Glan Hafren (The Parade) a Chwfaint y Forwyn Fair (The Walk). Mae'r rhain oll, ynghyd â'r blwch post piler Fictoraidd ar West Grove, yn Adeiladau Rhestredig Gradd 2.

Wedi'i leoli yn groeslinol gyferbyn ag Eglwys Bedyddwyr Tredegarville ar y gyffordd amlwg ag East Grove, mae rhif 29 The Parade yn dangos cyfuniad diddorol a nodedig o waliau brics melyn gyda bandiau o frics coch ynddynt. Ynghyd ag Ysgol Kings Monkton, James Howells House a Speakers House, mae rhif 29 The Parade yn adeilad anrhestredig nodedig sy'n cyfrannu'n fawr at gymeriad arbennig yr ardal.

## 3.3 Hierarchaeth Mannau Cyhoeddus a Phreifat

Mae cysondeb da o fannau cyhoeddus a mannau preifat yn yr ardal. Â phob eiddo wedi'u hadeiladu yn ôl o'r ffordd ac yn cynnwys mannau caeedig yn y blaen, a nifer ohonynt yn cadw'u waliau cerrig gwreiddiol, rheilins haearn bwrw a gerddi wedi'u tirlunio, mae'r strydlun wedi'i ddiffinio'n dda ar ei hyd. Mae'r strydoedd wedi cadw eu ffyrdd cerbydau eang a'u llwybrau coediog, sy'n rhoi ymdeimlad cryf o le a diffiniad amlwg rhwng y mannau cyhoeddus a phreifat. Pan fo'r waliau terfyn blaen wedi'u colli oherwydd y dyhead am lefydd parcio ychwanegol, mae hynny wedi cael effaith sylweddol ar y strydlun hanesyddol. Gellir gweld yr effaith mwyaf ar hyd The Walk.


Mae Coleg Glan Hafren ac Ysgol Kings Monkton yn gyfleusterau addysgol mawr sy'n dominyddu craidd canolog yr ardal. Er eu bod â lle mor amlwg, mae'r adeiladau hyn wedi'u hamgáu yn glir yn y tu blaen gan waliau isel o Dywodfaen Pennant ac yn y cefn gan waliau uchel o garreg Pennant a rwbel cymysg, sy'n amgáu meysydd parcio a chyrtiau cysylltiedig. Nid yw'r waliau brics yng nghefn Ysgol King's Monkton yn gydnaws â'r Ardal Gadwraeth, lle'r oedd y waliau yn cynnwys Tywodfaen Pennant yn wreiddiol.

Mae'r rhan fwyaf o'r lonydd cefn wedi'u cadw yn yr ardal hon, gan ddarparu llefydd parcio tu ôl i'r eiddo, ond cyfleoedd hefyd ar gyfer tipio anghyfreithlon, graffiti a fandaliaeth. O ganlyniad i golli'r lonydd cefn tu ôl i The Walk yn sgîl

datblygu fflatiau modern, gwelir rhai enghreifftiau o fynedfeydd cerbydau i'r tir caeedig yng nghefn yr eiddo trwy lonydd ochr y stryd. Mae addasiadau o'r fath yn niweidio'r strydlun hanesyddol, ac mae'r gwahaniaeth rhwng y mannau preifat a chyhoeddus yn llai eglur o'u herwydd.

## Map yn Dangos Prif Ddefnydd y Tir ac Athreiddedd

(Cymerwyd o Werthusiad Ardal Tredegarville Strategaeth Canol y Ddinas)




| | |
|---|---|
| Adeilad Rhestredig | Ffiniau Safleoedd o Bwys |
| Blaenau Anweithredol | Lonydd Mynediad Cefn |
| Pafin o Ansawdd Gwael | Safle Bwlch |
| Prif Lwybrau Traffig | Man Croesi Dymunol i Gerddwyr |

## 3.4 Y defnydd o ddeunyddiau Lleol neu Anarferol o Ansawdd Uchel yn y Treflun

Er iddynt gael eu hadeiladu dros gyfnod o ugain mlynedd rhwng yr 1850au a decrhau'r 1870au, mae'r adeiladau'n arddangos amrywiaeth o arddulliau a deunyddiau adeiladu. Yr eiddo yn arddull yr Adfywiad Clasurol yw'r cynharaf, ac yn nodweddiadol mae eu waliau blaen ag arwyneb stwco wedi'i baentio. Mewn gwrthgyferbyniad, mae'r eiddo sydd yn arddull yr Adfywiad Gothig yn hepgor gorchudd ar y waliau blaen, sy'n wynebu'r stryd â'u harwyneb creigiog o Dywodfaen Pennant. Gwelir yr arddulliau cyferbyniol hyn ochr yn ochr â'i gilydd yn nifer o strydoedd Tredegarville.

Mae llawer o'r eiddo preswyl yn arddull yr Adfywiad Gothig yn ymgorffori triniaethau o garreg Caerfaddon o amgylch y drysau a'r ffenestri bae ac mae llawer wedi cadw eu toeau gwreiddiol o lechi Cymreig hefyd.

Gwelir y defnydd o ddeunyddiau lleol o ansawdd uchel yn y mannau cyhoeddus hefyd, yn enwedig ar hyd llwybrau troed niferus yr ardal, sydd ag arwyneb caled o gerrig pafin mewn Tywodfaen Pennant yn bennaf.









• Mae ffenestri bae a thalcenni addurnedig yn nodweddion pwysig trwy'r ardal.









• Cynhelir y drysau a'r ffenestri yn dda ar y cyfan.

Mae'r adeiladau cyhoeddus yn yr ardal hefyd yn arddangos y gymysgedd nodweddiadol hon o ddeunyddiau pensaernïol. O'r Eglwys Undodaidd a waliau brics coch Ysgol King's Monkton i Dywodfaen Pennant Creigiog y Plasty, James Howell House a'r Hen Gwfaint, gwelir amrywiaeth nodedig o ddeunyddiau o fewn yr ardal. Enghraifft dda o hyn yw Labordy'r Dadansoddwyr Cyhoeddus ar West Grove, sy'n arddangos cymysgedd ddeniadol o frics coch, carreg Caerfaddon a Cherrig Nadd Portland ar ei waliau blaen. Mae Coleg Glan Hafren hefyd yn cynnwys nifer o fathau gwahanol o gerrig. Mae'r Cerrig Nadd Portland gyda'r bandiau Hollington Coch yn creu wal flaen drawiadol sy'n gwrthgyferbynnu â'r defnydd o frics coch yn y waliau cefn. Unwaith eto, mae'r rhan fwyaf o'r uchod wedi cadw'u toeau gwreiddiol o lechi Cymreig a'u triniaethau o Garreg Caerfaddon, ac eithrio'r Eglwys Undodaidd, lle gwelir Carreg Ham Hill yn amlwg ar bob wal, yn enwedig y tŵr.

Mae'r Ffoli Megalithig Rhestredig Gradd 2, yn y tir caeedig o flaen James Howell House, yn nodwedd hynod. Er mai atgynhyrchiad sydd yma, mae'n adlewyrchu ei leoliad gan mai copi mewn Carreg Radur ydyw o Gromlech Llwyneliddon ger Plasty Dyffryn, Bro Morgannwg. Nid yw Eglwys Bedyddwyr Tredegarville yn adlewyrchiad cystal o'r deunyddiau lleol, ond yn adlewyrchu hanes morwrol Caerdydd, gan fod rhai'n honni i'r waliau calchfaen balast ddod o'r Eidal. Mae'n fwy tebygol iddynt ddod o Swydd Galway, ar arfordir gorllewinol Iwerddon.

## 3.5 Manylion Pensaernïol o Ansawdd Uchel

Mae'r Ardal Gadwraeth yn cynnwys cymysgedd o arddulliau pensaernïol. Gellir rhannu'r rhain yn fras i ddau grŵp gwahanol; arddull yr Adfywiad Clasurol, sy'n cynnwys yr adeiladau cynharaf, ac arddull yr Adfywiad Gothig, a welir yn yr adeiladau diweddarach.

### Yr Adfywiad Clasurol

'Eidalaidd' yw'r disgrifiad a roddir yn aml i ymddangosiad yr eiddo Neo-glasurol yn Nhredegarville. 'Filas' ar wahân yw rhai ohonynt, ond yn amlach na pheidio maent wedi'u grwpio yn dai pâr neu dai teras. Eu prif nodweddion yw waliau mewn rendr stwco llyfn gyda baeau ffenestri a fframiau drysau crwm neu hirsgwar wedi'u hamgylchynu yn amlach na pheidio gan bilastrau Corinthaidd addurniadol.

Yn gyffredinol, mae'r waliau rendr yn yr ardal wedi'u paentio mewn lliw golau, gan ychwanegu at ymddangosiad ffres y tai hyn. Mae rhai o'r waliau rendr wedi'u hendorri neu eu garwhau er mwyn creu effaith blociau o gerrig nadd. Yn aml, gwelir bondoi â bracedau sy'n addurniadol neu blaen, a chonglfeini ar y toeau. Weithiau, ailadroddir yr addurniadau hyn o amgylch y ffenestri a'r maen clo yng nghanol ffrâm y drws.

Mae'r rhan fwyaf o ffenestri wedi'u gosod mewn baeau is sydd ar ogwydd neu'n estyn allan. Mae'r baeau ar ogwydd yn llai cyffredin ond gwelir rhai enghreifftiau yn yr ardal. Mae llawer o'r eiddo hefyd yn arddangos ffenestri dormer crwm neu fwaog ar y trydydd llawr. Nodwedd sy'n arbennig o gynrychioladol o'r cyfnod Clasurol yw'r pilastrau Corinthaidd, y gwelir nifer o enghreifftiau ohonynt wedi'u gosod yn onglau'r baeau ffenestri is ar ogwydd. Gwelir y rhain ar hyd The Parade ac yn enwedig ar hyd East Grove.

Er bod llawer o'r eiddo wedi amnewid neu addasu eu ffenestri yn sylweddol, mae nifer o enghreifftiau sydd wedi'u cadw'n dda trwy'r ardal gyfan.

Yn gyffredinol, mae'r fframiau drws wedi'u haddurno â chwfl sgwâr gyda

chorbelau neu heb gorbelau, a gynhelir gan fracedau addurniadol. Pan fo'r eiddo yn dai pâr neu'n dai teras, gwelir fframiau addurniadol â chwfl o amgylch y setiau dwbl o ddrysau mynediad.

## Yr Adfywiad Gothig

Mae arddull yr Adfywiad Gothig i'w weld yn amlach yng Nghaerdydd nag arddull yr Adfywiad Clasurol. Y bwa Gothig a welir yn fwyaf cyffredin. Mabwysiadwyd hwn gan y Fictoriaid ar ffurf talcenni blaen bwaog a welir hefyd yn y ffenestri a'r fframiadau drws a osodir mewn carreg noeth, heb ei phaentio neu waliau brics. Mae gwahaniaeth sylweddol rhwng nodweddion yn a'r arddull Neo-glasurol Eidalaidd a gellir gweld hyn yn glir yn Nhredegarville, lle mae'r ddau arddull cyferbyniol yn sefyll ochr yn ochr â'i gilydd.

Tywodfaen Pennant â wyneb creigiog a ddefnyddir yn ddieithriad bron yn eiddo Adfywiad Gothig yr ardal. Ac eithrio'r Hen Gwfaint a Choleg Glan Hafren, sy'n adeilad Rhestredig Gradd 2, hepgorwyd y blociau carreg nadd wedi'u garwhau ar y lloriau gwaelod er mwyn defnyddio cerrig noeth trwy'r adeiladau cyfan.

Mae'r garreg Caerfaddon a ddefnyddir ar y fframiau addurniadol yn ysgafnhau ymddangosiad y waliau Pennant. Fe'i defnyddir hefyd ar gyfer y triniaethau o amgylch y ffenestri a'r drysau. Gwneir defnydd effeithiol iawn ohoni yn wal flaen y Plasty ac yn fwy byth yn yr Hen Gwfaint. Fodd bynnag, mae nifer o enghreifftiau o driniaethau carreg Caerfaddon sydd wedi'u paentio, gan guddio'r gorffeniad carreg naturiol.

## Waliau Ffiniol

Waliau ffiniol mewn Tywodfaen Pennant neu frics gyda chopin carreg neu reiliau haearn bwrw sydd yn nodweddiadol yn yr ardal hon. Gwelir enghreifftiau da o'r rhain ar East Grove a rhannau o The Parade. Fodd bynnag, mewn rhannau eraill o'r ardal mae llawer o'r waliau ffiniol wedi'u tynnu ymaith er mwyn gwneud lle ar gyfer parcio preifat. Mae hyn yn arbennig o amlwg ym mhen gorllewinol The Walk, oherwydd bod y llefydd parcio yn y lôn gefn wedi'u colli. Mewn rhannau eraill, mae'r waliau a'r rheiliau wedi'u hailadeiladu neu eu hamnewid â rheiliau mwy modern o ansawdd israddol.

## Deunyddiau To

Mae'r rhan fwyaf o'r eiddo â thoeau llechi neu orchuddion to mwy diweddar sy'n atgynhyrchiadau, ac maent wedi cadw eu simneiau o garreg Pennant gyda bandiau brics melyn. Mae cwteri a pheipiau dŵr mewn haearn bwrw i'w gweld o hyd, er bod llawer wedi'u hamnewid â rhai UPVC. Un o nodweddion yr ardal yw'r bracedi pren trwm wedi'u paentio a ddefnyddir i gynnal y peipiau hyn.

## Drysau

Mae nifer fawr o ddrysau pren wedi goroesi ers y cyfnod Fictoraidd. Pren wedi'i baentio gyda darnau gwydr sydd yn y drysau hyn gan fwyaf, ac mae rhai yn cynnwys y gwydr barugog addurniadol o hyd. Yn ychwanegol, mae'r rhan fwyaf o'r eiddo wedi cadw'i ffenestri linter uwchben y drws, ac mae llawer o'r rhain yn dangos enw neu rif yr eiddo.









• Mae carreg naturiol yn gwrthgyferbynnu a'r stwco llyfn i greu cymeriad yr ardal.

# 3.6 Tirlunio Caled a Meddal o Ansawdd Uchel









• Pafin, cyrbau a chroesfannau o gerrig naturiol.

Mae strydlun ardal yn cyfuno adeiladau gyda manylion pensaernïol o ansawdd uchel mewn strydoedd coediog a thir caeedig wedi'i dirlunio o flaen yr adeiladau. Mae'r rhan fwyaf o'r gerddi wedi'u cynnal a'u cadw'n dda ac yn ychwanegu at ansawdd yr ardal. Fodd bynnag, mewn rhai achosion mae'r perthi yn bargodi dros y llwybrau troed ac yn cuddio rhai o'r adeiladau. Mae'r rhan fwyaf o'r coed yn goed collddail aeddfed o rywogaethau amrywiol. Mae eu hamrywiaeth a'u maint yn ategu'r amgylchedd adeiledig ac yn ysgafnhau llawer ar strydlun.

Er bod y tirlunio meddal yn chwarae rhan bwysig yn yr ardal, mae'r tirlunio caled yn nodedig hefyd am ei rinweddau naturiol. Mae pafinau o Garreg Pennant yn nodweddiadol o strydoedd Fictoraidd yn Ne Cymru ac maent wedi'u cadw'n dda yn yr Ardal Gadwraeth. Mae East Grove a rhannau dwyreiniol o The Walk yn cynnwys pafinau Tywodfaen Pennant sydd wedi'u cadw'n arbennig o dda, tra bo enghreifftiau o gerrig pafin sydd wedi torri, wedi'u difrodi neu ar goll ar The Parade, West Grove ac yn enwedig ar hyd rhannau gorllewinol The Walk. Nodwedd unigryw a welir yma yw'r bandiau Carreg Pennant yn y gyffordd rhwng The Parade ac East Grove, sy'n dynodi'r pedair croesfan cerddwyr.

Trwy'r Ardal Gadwraeth gyfan, mae tirlunio meddal o ansawdd uchel, megis coed a pherthi, yn ategu'r pafinau Pennant ac yn dod ynghyd i greu cymeriad arbennig yr ardal hon. Fodd bynnag, mae rhai o wreiddiau'r coed aeddfed wedi dechrau cracio a gwthio'r cerrig pafin Pennant i fyny ledled yr ardal.

# 4 fframwaith gweithredu

## 4.1 Y Cefndir

Mae rhannau blaenorol y ddogfen hon yn disgrifio'r prif nodweddion sy'n creu cymeriad arbennig yr Ardal Gadwraeth, ac yn nodi ble mae'n bosibl gwella. Mae'r adran nesaf yn dangos sut y gellir defnyddio'r ddogfen.

## 4.2 Prif Bwrpas y Gwerthusiad

Unwaith y caiff ei fabwysiadu, bydd y gwerthusiad a'r canllawiau'n cael eu defnyddio i wneud y canlynol:

- Diffinio cynllun gwella i arwain datblygiad yr ardal.
- Bod yn sail ar gyfer asesiadau o geisiadau cynllunio yn unol â Pholisi 3 y Cynllun Lleol hyd nes y caiff Cynllun Datblygu Lleol ei fabwysiadu.
- Gosod blaenoriaethau ar gyfer rheoli a gwella tir cyhoeddus yn y dyfodol.
- Rhoi canllawiau ar rinweddau arbennig yr ardal a sut i'w diogelu.

## 4.3 Manteision y Gwerthusiad

Rhagwelir y bydd y gwerthusiad a fabwysiedir yn dod â'r manteision canlynol i'r ardal.

- Cadw a gwella cymeriad arbennig yr Ardal Gadwraeth drwy gadw, gwella a chynnal a chadw'r nodweddion a nodwyd yn y gwerthusiad sy'n cyfrannu at ei chymeriad.
- Rhoi canllawiau i berchnogion eiddo a phobl sy'n byw yn yr Ardal Gadwraeth.
- Darparu cymorth i berchnogion eiddo lleol ac i grwpiau, mentrau ac arweinwyr cymunedol yn eu hymdrechion i gadw a gwella'r Ardal Gadwraeth.
- Annog a chynghori ynghylch atgyweiriadau a gwelliannau cywir.
- Sicrhau bod unrhyw ddatblygiadau newydd yn parchu cymeriad yr ardal ac yn gweddu i'w ffurf a'i chynllun presennol.
- Gwella'r mwynhad o gymeriad arbennig yr ardal.
- Sicrhau bod gwelliannau i dir y cyhoedd yn cael eu cyflawni gan barchu cymeriad arbennig yr Ardal Gadwraeth.

## 4.4 Pwysau i Newid

Ceir pwysau a galwadau o bob math sy'n gallu amharu ar y gwaith o ddiogelu a gwella Ardaloedd Cadwraeth. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Newid defnydd neu isrannu'r adeiladau
- Pwysau i addasu neu estyn adeiladau.
- Pwysau i newid adeiladau a thai er mwyn cyflawni amcanion eraill, er enghraifft gwell effeithlonrwydd ynni a diogelwch.
- Colli tirlunio meddal a chaled gan gynnwys waliau ffiniol, cloddiau, gerddi a choed.
- Colli arwynebau stryd carreg traddodiadol.
- Cynnal a chadw adeiladau neu ffiniau yn annigonol neu amhriodol.
- Parhad neu gynnydd mewn tagfeydd traffig, yn enwedig ar hyd West Grove a The Parade.
- Pwysau parhaus i gael llefydd parcio ar y stryd ac mewn blaengyrtiau, ac effaith hynny ar ymddangosiad y strydlun hanesyddol yn ogystal â symudiad trwy'r ardal.
- Gofynion Rheoli Gwastraff.

## 4.5 Ffyrdd o Wella'r Ardal Gadwraeth

### 4.5.1 Materion Perthnasol a Chyfleoedd

### Addasiadau i Adeiladau

#### Materion

Dengys arolwg o gyflwr yr ardal bod yr addasiadau canlynol i adeiladau wedi arwain at golli nodweddion pensaernïol:

- Gosod ffenestri gwydr dwbl neu upvc yn lle'r ffenestri dalennog pren gwreiddiol.
- Estyll tywydd pren neu upvc plaen yn lle'r estyll tywydd addurnedig cywrain.
- Colli drysau pren â phaneli a'r celfi drws gwreiddiol.
- Gosod drysau allanol ychwanegol i gau'r cynteddau cilfachog.
- Paentio dros gerrig neu waith brics o ansawdd naturiol a manylion cynnil.
- Colli waliau ffiniol a physt gatiau.

Mae ychwanegiadau sy'n amharu ar ansawdd yr adeilad yn cynnwys:

- Gosod dysglau lloeren ar waliau sy'n weladwy o'r briffordd gyhoeddus.

- Gosod ffenestri to ar lethrau toeau sydd yn yr amlwg.

Mae'r arolwg o'r ardal hefyd yn dangos mai ychydig o'r eiddo sy'n cael eu defnyddio fel anheddau sengl. Golyga hyn fod angen caniatâd cynllunio ar gyfer y rhan fwyaf o'r addasiadau, gofyniad nad yw, o bosibl, wedi'i deall yn llawn gan fod yr arolwg o gyflwr adeiladau'r ardal yn dangos bod mân newidiadau wedi'u gwneud ar raddfa helaeth i'r eiddo domestig a masnachol fel ei gilydd.

## Cyfleoedd i Wella

- Parhau i hyrwyddo'r canllawiau a'r cynghorion ynghylch atgyweirio ac addasu adeiladau yn gywir yn yr Ardaloedd Cadwraeth. Mae angen brys i hyrwyddo a rhoi cyhoeddusrwydd i gymeriad ac ansawdd hanesyddol yr ardal a darparu cyngor esboniadol ynghylch yr angen i sicrhau caniatâd cynllunio ar gyfer addasu'r adeiladau.

- Annog adfer manylion gwreiddiol wrth ystyried y cynigion datblygu, a thrwy barhau i hyrwyddo'r canllawiau.

- Monitro'r newidiadau er mwyn lleihau effaith negyddol unrhyw fân newidiadau nas awdurdodwyd.

- Diogelu yn erbyn newidiadau defnydd/trosi amhriodol

- Diogelu yn erbyn colli llety preswyl posibl

# Tir Cyhoeddus

## Materion

- Mewn rhai mannau, mae rhai o'r cerrig pafin a'r cyrbau wedi'u hamnewid â deunyddiau modern wrth wella ac atgyweirio'r briffordd. Mae difrod wedi'i achosi mewn rhai mannau gan wreiddiau coed sydd wedi cracio'r deunyddiau pafin traddodiadol a'u gwthio i fyny.

- Mae'r mannau prin eu defnydd sy'n arwain i'r lonydd cefn yn dioddef gan fandaliaeth, yn enwedig graffiti. Mae'r sefyllfa'n gwaethygu ymhellach i lawr y lonydd cefn, er bod yr ardaloedd hyn tu allan i'r Ardal Gadwraeth.

## Cyfleoedd i Wella

- Ceisio gwella tir y cyhoedd trwy'r ardal gyfan, gan roi sylw i'r cerrig pafin sydd wedi'u difrodi neu eu hatgyweirio'n wael. Gweithio gyda'r asiantaethau perthnasol i sicrhau bod cymeriad yr Ardal Gadwraeth yn cael ei gydnabod a deunyddiau priodol yn cael eu defnyddio mewn cynlluniau i atgyweirio neu wella'r briffordd.

- Dylai'r atgyweiriadau i'r cerrig pafin a ddifrodwyd gan wreiddiau coed fod yn sensitif i gymeriad yr Ardal Gadwraeth. Gosod arwyneb mwy hyblyg yn y mannau a effeithiwyd yw'r ateb mwyaf priodol, ond dylai gydategu'r arwyneb hanesyddol sy'n weddill.

- Lleihau'r cyfleoedd am ragor o graffiti. Byddai rhagor o oruchwyliaeth yn y lonydd cefn yn helpu i leihau'r fandaliaeth.

## Tirlunio

### Materion

- Colli gerddi blaen oherwydd llefydd parcio a thirlunio caled.
- Mae angen rheoli'r coed stryd a choed yn y gerddi blaen yn briodol a rheolaidd i sicrhau eu bod yn parhau i gyfrannu at gymeriad yr Ardal Gadwraeth.
- Mae rhai waliau ffiniol a rheiliau a physt gatiau yn anghyflawn neu wedi'u hamnewid / atgyweirio â deunyddiau amhriodol neu mewn cyflwr gwael oherwydd diffyg cynnal a chadw.

### Cyfleoedd i Wella

- Dylai'r gerddi sydd wedi'u tanseilio oherwydd mannau parcio agored gael eu hamgáu wrth i'r cyfleoedd datblygu godi. Dylid gwrthwynebu unrhyw fannau parcio pellach mewn gerddi blaen.
- Cynnal a chadw a gwella'r rhesi coed yn y stryd ac annog rheolaeth briodol ar y coed sydd ar dir preifat.
- Dylid ceisio adfer y waliau ffiniol a'r rheiliau sy'n wynebu'r stryd wrth i'r cyfleoedd datblygu godi. Dylid gwrthwynebu tynnu waliau ffiniol ymaith.

## 4.5.2 Canllawiau i Berchnogion Eiddo a Datblygwyr

Y ffordd fwyaf effeithiol o wella Ardal Gadwraeth yw sicrhau bod y rheiny sy'n cynllunio gwaith neu ddatblygiadau yn deall cymeriad yr ardal. Nodir y canllawiau yn Atodiad 2 a 3 ac maent yn cynnig cyngor ynghylch sut gellir gwarchod adeiladau mewn cynigion ar gyfer datblygiadau. Ceir cyngor hefyd i'r rheiny sy'n ystyried gwneud gwaith atgyweirio a chynnal a chadw. Nid ystyrir ei bod yn briodol nac yn gyfiawn rhoi Cyfarwyddyd Erthygl 4 i ddarparu rheolaeth bellach ar dai annedd sengl.

## 4.5.3 Gweithio gyda'n Gilydd

Mae Deddf Cynllunio 1990 (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) yn gosod dyletswydd ar Awdurdod Cynllunio i baratoi cynllun gwella ar gyfer Ardal Gadwraeth. Mae hyn yn golygu, er mwyn sicrhau gwelliannau, bod yn rhaid gweithio ar y cyd â Gwasanaethau eraill yn y Cyngor neu mewn partneriaeth â datblygwyr, y gymuned a chyrff cyhoeddus eraill.

Yn y mentrau canlynol, gallai'r Cyngor fod yn allweddol wrth ddylanwadu ar welliannau a bwrw ymlaen â hwy:

- Trwy fabwysiadu'r canllawiau a'r cyfleoedd i wella a nodir yn y gwerthusiad hwn.
- Trwy hyrwyddo arwyddocâd hanesyddol yr ardal. Byddai newid enw'r ardal gadwraeth er mwyn cyfeirio at ei ddatblygwr gwreiddiol wedi

rhoi gwell dealltwriaeth o gymeriad arbennig yr ardal, gan sicrhau cysondeb â'r argymhellion o fewn Strategaeth Canol y Ddinas 2007-2010.

- Rheoli cyllidebau cyfredol y Cyngor yn effeithiol.

- Rheoli'r gwaith adfer ar goed sy'n eiddo i'r Cyngor yn effeithiol, a phlannu coed newydd ble mae galw.

- Gwella ac atgyweirio priffyrdd.

- Parhau i drafod i sicrhau effeithlonrwydd wrth reoli gwastraff heb golli cymeriad yr ardaloedd.

# 5 a 6 argymhellion ac ymgynghoriad

## 5 Argymhellion

**Mae'r argymhellion canlynol yn crynhoi canfyddiadau'r gwerthusiad a'r camau gweithredu y gellir eu cymryd ar ôl ei fabwysiadu.**

- Argymhellir cyhoeddi'r canllawiau yn Atodiadau 1 a 2 a'u dosbarthu i'r rheiny sy'n byw yn yr Ardal Gadwraeth neu sydd â diddordeb ynddi.
- Cadarnhau mai'r Gwerthusiad a'i argymhellion a'i flaenoriaethau gweithredu yw'r sylfaen ar gyfer mentrau corfforaethol yn yr Ardal Gadwraeth.
- Mae'r Gwerthusiad yn gweithredu fel fframwaith ar gyfer asesu ceisiadau cynllunio yn unol ag Adran 72 y Ddeddf, fel sylfaen ar gyfer cyfraniadau datblygwyr lle bo'n briodol
- Mae'r Gwerthusiad ar gael i'w astudio yn y llyfrgelloedd a'r ysgolion lleol.
- Cytuno ar gynllun priodol ar gyfer atgyweirio a chynnal a chadw er mwyn sicrhau bod gwaith a gynhelir ar dir y cyhoedd yn gydnaws â chymeriad yr Ardal Gadwraeth.
- Ar ôl newid y ffiniau, ailenwi'r Ardal Gadwraeth yn Ardal Gadwraeth Tredegarville.

## 6. Ymgynghoriad

**Mabwysiadwyd y ddogfen hon yn dilyn ymgynghori lleol.**

Cysylltwch â'r Tîm Cadwraeth ar 029 2087 3485 i gael gwybodaeth am Adeiladau Rhestredig a dogfennau eraill sy'n ymwneud â pholisi cynllunio.

# 1 Fframwaith Polisi

1.1 Mae'r fframwaith polisi ar gyfer y canllaw hwn wedi'i gefnogi gan Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990, Polisi Cynllunio Cymru 2002, Cylchlythyr 61/96, Cynllun Adnewyddu Strwythurol De Morgannwg (Ardal Caerdydd) 1991 - 2011 Mabwysiadwyd Ebrill 1997, Cynllun Lleol Dinas Caerdydd a fabwysiadwyd Ionawr 1996 a Datganiad Ysgrifenedig y Cynllun Datblygu Lleol a Adneuwyd 2003, ac mae ganddynt oll bolisïau sy'n berthnasol i ddiogelu a gwella'r amgylchedd hanesyddol, gan gynnwys Ardaloedd Cadwraeth. Bydd y canllaw yn yr atodiad hwn hefyd yn cyd-fynd â pholisïau sy'n rhan o'r Cynllun Datblygu Lleol sydd ar y gweill, y Canllawiau Cynllunio Atodol ar gyfer Canllawiau Cynllunio i Ddeiliaid Tai a'r Canllawiau Cynllunio Preswyl.

1.2 Mae Ardal Gadwraeth The Parade yn cynnwys nifer fawr o adeiladau hanesyddol, ac nid yw'r mwyafrif ohonynt wedi'u rhestru yn statudol. Mae'r adeiladau hyn wedi cadw nodweddion pensaernïol sy'n helpu i gynnal cymeriad yr ardal ac yn elfen hanfodol o'i diddordeb arbennig. Efallai y byddai gwneud mân addasiadau ac ychwanegiadau'n ymddangos yn ddibwys ynddynt eu hunain, ond wrth eu gweld gyda'i gilydd gallant gael effaith niweidiol ar nodweddion arbennig yr Ardal Gadwraeth. Mae'n bwysig bod addasiadau'n parchu cymeriad arbennig yr Ardal Gadwraeth.

1.3 Mae diddordeb arbennig yr Ardal Gadwraeth yn dibynnu ar y nodweddion allweddol a ddisgrifir ym Mhennod 4. Dylai addasiadau ddiogelu'r nodweddion allweddol hyn a dylid ystyried atgyweirio ac ailgyflwyno'r nodweddion pan fyddant wedi'u difrodi neu wedi diflannu. Mae'r canllawiau isod yn nodi'r arferion da ar gyfer datblygu'r Ardal Gadwraeth, gan nodi pryd mae angen caniatâd cynllunio ar gyfer gwaith penodol a pha fath o ddatblygiad sy'n debygol o fod yn dderbyniol.

# 2 Waliau Allanol

2.1 Bydd caniatâd cynllunio yn ofynnol ar gyfer gorchuddio wal allanol wreiddiol â rendr, cladin o unrhyw fath, paent neu unrhyw driniaeth sy'n ei hanffurfio; fodd bynnag, ni fydd yn cael ei ganiatáu fel arfer.

2.2 Mae nifer o adeiladau eisoes â cherrig Caerfaddon sydd wedi'u paentio. Wrth baentio dros y rhain, dylid gwneud hynny mewn lliw sy'n cyfateb yn agos i'r garreg Caerfaddon wreiddiol.

2.3 Bydd caniatâd cynllunio yn ofynnol ar gyfer tynnu paent oddi ar waliau a thriniaethau nadd o amgylch drysau a ffenestri, ac fe'i caniateir cyhyd ag y bo dull priodol o dynnu'r paent wedi'i ddewis. Gall dulliau glanhau amhriodol megis y defnydd o gemegau, defnyddio gormod o ddŵr neu sgwrio â thywod achosi difrod hirdymor i ffabrig yr adeiladau.

# 3 Ailbwyntio

3.1 Er nad oes angen caniatâd cynllunio i ailbwyntio adeilad sydd heb ei restru yn yr Ardal Gadwraeth, mae'n bwysig ystyried y canlynol: dylid paratoi'r uniadau'n briodol, dylid defnyddio mortar calch newydd sydd yr un lliw ac o'r un gwead â'r gwreiddiol a dylid adlewyrchu proffil a gorffeniad y gwaith gwreiddiol mor agos â phosibl. Ni ddylid defnyddio morter sment gan y gall achosi difrod hirdymor i ffabrig yr adeilad.

# 4 Toeau a Thalcenni

4.1 Dylid cadw ac atgyweirio manylion addurnol ar y talcenni a'r toeau, fel teils crib, terfyniadau ac estyll tywydd addurnol. Bydd angen caniatâd cynllunio i'w tynnu ymaith, ac ni fydd hynny'n dderbyniol fel arfer. Pan fo'r manylion hyn wedi diflannu, anogir eu hailgyflwyno. Os yw'r manylion hyn wedi'u difrodi, bydd yn ofynnol eu hamnewid am rai sydd yr un fath, gan y bydd hyn yn sicrhau bod nodweddion arbennig yr Ardal Gadwraeth yn cael eu cadw neu eu gwella.

4.2 Yn aml bydd angen caniatâd cynllunio i wneud gwaith ail-doi. Os yw'n bosibl, dylid cadw deunydd gwreiddiol y to. Os bwriedir rhoi to newydd, dylid asesu'r posibilrwydd o ailddefnyddio'r deunydd to gwreiddiol. Llechi a theils naturiol newydd neu rai wedi'u hadfer yw'r ffordd orau o gadw nodweddion arbennig yr adeilad a'r Ardal Gadwraeth ehangach. Fodd bynnag, gall llechi a theils o ansawdd dda sydd wedi'u hatgynhyrchu fod yn orchudd derbyniol ar gyfer adeilad anrhestredig yn yr Ardal Gadwraeth.

## 5 Simneiau

5.1 Fel arfer, bydd angen caniatâd cynllunio i ddymchwel simnai. Fel arfer, ni roddir hawl i gael gwared ar simnai sy'n cyfrannu at yr ardal gadwraeth. Mae'n bwysig sicrhau bod camau'n cael eu cymryd i gadw gwaith carreg neu waith brics, uniadau, mortar a manylion fel potiau clai, hyd yn oed pan nad yw'r simneiau'n cael eu defnyddio mwyach. Os ydyn nhw'n beryglus ac angen eu trwsio, dylid eu hailadeiladu i'r uchder a'r cynllun gwreiddiol.

## 6 Nwyddau Dŵr Glaw

6.1 Os yw'n bosibl, dylid cadw cwteri a pheipiau haearn bwrw ar waliau amlwg. Er nad oes angen caniatâd cynllunio i'w newid, dylai'r rhai newydd fod yn gydnaws ag ymddangosiad y rhai gwreiddiol er mwyn sicrhau bod nodweddion arbennig yr Ardal Cadwraeth yn cael eu cynnal.

## 7 Ffenestri Dormer a Ffenestri To

7.1 Mae angen caniatâd cynllunio i osod ffenestri dormer, lle bynnag y gosodir hwy ar y to. Gall gosod ffenestri dormer ar waliau sy'n wynebu priffordd gyhoeddus ymddangos yn anghydnaws, a gallant amharu ar gymeriad yr Ardal Gadwraeth. Fel arfer, bydd rhagdybiaeth yn erbyn gosod ffenestri to a ffenstri dormer mewn toeau sydd yn yr amlwg.

7.2 Fodd bynnag, efallai y bydd ffenestri dormer ar ochr to, a'r rheiny'n fach ac yn defnyddio deunyddiau a manylion sy'n parchu cymeriad ac ymddangosiad yr Ardal Gadwraeth, yn dderbyniol.

7.3 Mae'n bwysig nodi y bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn disgwyl i'r ymgeiswyr ystyried gosod ffenestri to a ffenestri dormer ar waliau cefn llai amlwg, lle maent yn debygol o fod yn fwy derbyniol.

Mewn rhai adeiladau, mae ffenestri dormer yn cyfrannu'n sylweddol at yr Ardal Gadwraeth. Pan fydd angen ailosod neu roi ffenestri dormer newydd, dylid cael rhai sydd yr un fath. Mae'n annhebygol y bydd unrhyw gynnydd ym maint y ffenestr ddormer yn dderbyniol.

## 8 Ffenestri a Drysau

Bydd angen caniatâd cynllunio fel arfer i addasu ffenestri neu ddrysau, er nad oes ei angen yn aml ar gyfer atgyweiriadau neu ailosodiadau sy'n union yr un fath â'r rhai gwreiddiol. Dylid cysylltu â'r Tîm Cadwraeth i drafod y mater hwn.

Os yw'n bosibl, dylid cadw'r ffenestri dalennog a'r drysau pren gwreiddiol, a'u hatgyweirio. Mae atgyweirio pren sy'n dirywio yn fwy cynaliadwy yn amgylcheddol ac yn aml yn rhatach nag ailosod yn llwyr, ac mae i hynny'r fantais o gadw cymeriad gwreiddiol yr adeilad. Mae gan y Tîm Cadwraeth restr o seiri lleol arbenigol sy'n gallu atgyweirio neu adnewyddu ffenestri a drysau pren.

Os bydd angen gosod ffenestri newydd, dylai eu hymddangosiad, eu deunydd a'u pwrpas gyfateb yn agos i'r gwreiddiol.

Dim ond os ystyrir bod hynny'n cadw cymeriad yr Ardal Gadwraeth y ceir gosod ffenestri newydd yn lle'r rhai dalennog pren gwreiddiol. Sylwer bod ffenestri upvc yn aml yn anaddas oherwydd bod eu strwythur yn anorfod yn fwy trwchus. Gall hyn olygu nad oes ganddynt yr ysgafnder sy'n nodweddiadol o ffenestri dalennog pren.

Pan fwriedir gwneud addasiadau i adeilad sydd heb y ffenestri a drysau gwreiddiol, bydd ffenestri a drysau newydd

sy'n debyg i ymddangosiad, deunydd a phwrpas y rhai gwreiddiol yn cael ei annog gan y byddant yn gwella cymeriad yr Ardal Gadwraeth.

Mae rhagor o gyngor am atgyweirio ffenestri a gosod rhai newydd ar gael mewn cyhoeddiad ar wahân, 'Atgyweirio a Ffenestri Newydd mewn Ardaloedd Cadwraeth' sydd ar gael gan y Tîm Cadwraeth neu ar wefan yr Awdurdod Lleol.

Efallai y bydd angen caniatâd cynllunio i addasu drysau a ffenestri newydd. Ni ddylid addasu maint agoriadau drysau a ffenestri gan fod hyn yn debygol o amharu ar ymddangosiad yr adeilad a'r grŵp y mae'n rhan ohono. Mae'n annhebygol y byddai agoriadau newydd yn dderbyniol ar waliau amlwg. Pan fydd addasiadau anaddas wedi'u gwneud, ac os bydd cyfleoedd datblygu ar gael, anogir ailgyflwyno'r patrymau ffenestri gwreiddiol.

Dylid cadw gwydr addurnol mewn ffenestri, drysau a chynteddau. Mae'n annhebygol y bydd unrhyw gynnig i dynnu ymaith neu addasu gwydr addurnol yn dderbyniol. Os bydd gwydr addurnol wedi'i ddifrodi, dylid cael darn addas newydd yn hytrach na newid yr holl ffenestr.

Ni fydd yn dderbyniol gosod gwydr dwbl, onid yw'n cael ei wneud mewn ffordd sy'n cadw cymeriad yr Ardal Gadwraeth.

Yn aml gellir cael gwell effeithlonrwydd ynni a lleihau sŵn neu ddrafft o ffenestri drwy ddulliau sy'n parchu'r ardal, fel cynnal a chadw ac atgyweirio'r ffenstri'n briodol ac yn rheolaidd, gosod ail haen o wydr, gosod stribedi drafft, a defnyddio llenni trwchus hyd yn oed. Mae i'r dulliau hyn y fantais nad oes angen caniatâd cynllunio ar eu cyfer chwaith.

## 9 Cynteddau

Adeiladwyd cynteddau yn wreiddiol fel cilfachau agored yn nhu blaen y tŷ, a fyddai'n wynebu'r stryd. Bydd cynnig i gau cyntedd neu adeiladu cyntedd neu ganopi allanol newydd yn annerbyniol. Dylid cadw manylion addurnol tu mewn ac o amgylch cynteddau a drysau. Ni fydd cynigion i'w tynnu ymaith neu eu haddasu yn dderbyniol. Pan fo'r manylion addurnol hyn wedi diflannu, byddai eu hailgyflwyno yn gwella cymeriad ac ymddangosiad yr eiddo a'r Ardal Gadwraeth ehangach.

## 10 Dyfeisiadau Ynni Adnewyddadwy, Offer Cyfathrebu ac Offer Diogelwch

Gallai gosod offer ychwanegol ar adeiladau, at ba ddefnydd bynnag, gael effaith sylweddol ar gymeriad yr Ardal Gadwraeth. Os bydd yr offer hwnnw mewn lle anaddas, gallai gael effaith gronnus a fyddai'n niweidio cymeriad yr Ardal Gadwraeth. Pan fo angen caniatâd cynllunio, mae'n annhebygol y bydd offer o'r fath ar waliau ffrynt a waliau ochr amlwg yn dderbyniol. Mae waliau cefn neu dai allan yn aml yn lleoliadau mwy addas, cyn belled nad ydynt yn rhy amlwg nac yn niweidio cymeriad neu ymddangosiad yr Ardal Gadwraeth. Os yw'r math hwn o offer wedi'i leoli mewn mannau anaddas ar hyn o bryd, dylid cael gwared arno pan fydd cyfle.

## 11 Gerddi Blaen

Mae gerddi blaen â glaswellt a phlanhigion yn nodweddion deniadol. Pan fydd angen caniatâd cynllunio, mae'n debygol y bydd yr angen i gadw'r cymeriad yn golygu na roddir caniatâd i osod cerrig pafin, tarmac neu addasu gerddi ffrynt mewn ffordd anaddas arall, yn enwedig pan fo manylion gwreiddiol megis llwybrau teils ac ymylon siâp rhaff i'w gweld o hyd. Os yw cynllun a manylion gwreiddiol yr ardd wedi diflannu, anogir eu hailgyflwyno.

Ni roddir caniatâd i ddefnyddio gerddi blaen ar gyfer parcio cerbydau. Pan fo'r gerddi'r blaen wedi'u haddasu eisoes i greu llefydd parcio i gerbydau, a phan fo'r cyfleoedd gwella'n caniatáu hynny, anogir ailgyflwyno'r gerddi blaen traddodiadol er mwyn gwella'r ardal.

# 12 Ffiniau Blaen

Bydd angen caniatâd cynllunio i dynnu ymaith y waliau ffiniol blaen. Pan fydd y waliau ffiniol blaen yn bodoli o hyd, bydd y rhain yn cael eu cadw mewn cynigion datblygu. Pan fydd y manylion hyn wedi diflannu, a phan fydd cyfleoedd datblygu'n caniatáu, anogir eu hailgyflwyno er mwyn gwella'r ardal. Dylai cynigion am waliau newydd geisio adlewyrchu'r deunyddiau, uniadau, mortar a phwyntio'r waliau gwreiddiol, neu ddefnyddio deunyddiau eraill o ansawdd da.

Byddai rheiliau ar ben y waliau ffiniol wedi bod yn nodwedd gyffredin ar un adeg, ond ychydig o'r rhai gwreiddiol sydd wedi goroesi. Wrth atgyweirio ac adfer rheiliau a gatiau, mae'n well defnyddio adrannau a phroffiliau sy'n adlewyrchu rheiliau Fictoraidd gwreiddiol. Fodd bynnag, rhoddir ystyriaeth i reiliau modern o ansawdd da hefyd. Anaml iawn y bydd dyluniadau a brynir wedi'u gwneud yn barod yn briodol. Dylid nodi mai ychydig yn unig o'r rheiliau newydd modern sydd o ansawdd da.

# 13 Datblygiadau ac Estyniadau

Boed y cynllun yn un traddodiadol neu fodern, er mwyn i ddatblygiadau newydd ac estyniadau i adeiladau presennol fod yn llwyddiannus mewn Ardal Gadwraeth, mae angen deall nodweddion arbennig yr ardal honno.

Dylai estyniadau i adeiladau presennol a datblygiadau newydd yn yr Ardal Gadwraeth gadw neu wella cymeriad ac ymddangosiad yr Ardal Gadwraeth drwy wneud y canlynol:

- Parchu ansawdd nodedig y lle, gan gynnwys y graen trefol cyfredol a'r rhythmau fertigol a llorweddol yn y ffurf adeiledig.
- Cadw golygfeydd pwysig i mewn ac allan o'r Ardal Gadwraeth.
- Parchu a chadw cymysgedd priodol o ddefnydd tir.
- Atgyfnerthu hierarchaeth bresennol mannau cyhoeddus a phreifat.
- Defnyddio deunyddiau a manylion pensaernïol o'r un math neu o ansawdd yr un mor uchel â'r rheiny sydd yn yr adeiladau presennol.

Mae materion cynllunio mwy cyffredinol i'w hystyried hefyd. Er enghraifft, mae angen rhoi sylw i effaith datblygiadau ar amwynder cymdogion, yn arbennig o ran datblygiadau gormesol a cholli golau.

**Ceir rhagor o wybodaeth a chanllawiau am ardaloedd cadwraeth ar wefan yr Awdurdod Lleol yn www.caerdydd.gov.uk neu drwy gysylltu â'r Tîm Cadwraeth ar (029) 2087 3485.**

# Canllawiau ar Gyfer Gwaith ar Goed yn yr Ardal Gadwraeth

Mae coed yn cyfrannu at gymeriad arbennig yr Ardal Gadwraeth ac mae gan yr Awdurdod Lleol bwerau yn yr Ardal Gadwraeth i'w diogelu. Rhaid i chi wneud cais ysgrifenedig i gael caniatâd gan yr Awdurdod Lleol ar gyfer gwaith arfaethedig ar goed. Yn benodol, rhaid i chi roi 6 wythnos o rybudd i'r Awdurdod Lleol o'ch bwriad i wneud y gwaith. Os na fydd yr Awdurdod Lleol yn ymateb o fewn chwe wythnos, gellir gwneud y gwaith beth bynnag heb hysbysu'r Awdurdod Lleol ymhellach. Mae cosbau'r llys am beidio â rhoi'r rhybudd hwn yn ddifrifol.

Bydd yr Awdurdod Lleol yn caniatáu gwaith os bydd hynny o fudd i'r coed, a gall ganiatáu gwaith hefyd os bydd y manteision yn fwy na'r difrod i'r coed. Os nad yw'r Awdurdod Lleol yn rhoi caniatâd, gall yr Awdurdod wneud Gorchymyn Cadw Coed i atal y gwaith.

Nid yw "gwaith" yn golygu dymchwel neu ladd coeden yn unig, ond hefyd tocio sy'n fwy na 7.5 centimedr (tua 3 modfedd) mewn diamedr, wedi'i fesur 1.5 metr (tua 5 troedfedd) uwch y tir neu wreiddiau neu ganghennau difrodol, boed yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol. Er enghraifft, dylid gwneud cais os ydych chi'n bwriadu addasu lefel y pridd ger coed, neu osod wynebau anhydraidd, fel llwybr neu dramwyfa newydd. Byddai'n drosedd hefyd difrodi coed drwy lygru eu hamgylchedd, er enghraifft rhoi chwynladdwr dail llydan ar lawnt gyfagos. Mae sawl eithriad rhag gorfod cael caniatâd, yn enwedig yn achos coed sy'n marw, wedi marw, neu'n beryglus.

Fel arfer, bydd yn rhaid plannu coed newydd yn lle rhai sy'n cael eu torri'n anghyfreithlon. Os yw'r gwaith dan sylw yn ymwneud â datblygiad sydd angen caniatâd cynllunio, dylech gynnwys y manylion yn y cais cynllunio. Ni fydd angen i chi wneud cais ar wahân.

Os oes gennych chi goeden fawr neu amlwg, fe'ch cynghorir yn gryf i gael cyngor gan feddyg coed ar gyfer ei rheoli yn y tymor hir. Bydd yr Awdurdod Lleol yn rhoi ystyriaeth deg i farn meddyg coed cymwysedig wrth ystyried ceisiadau. Yr Awdurdod Lleol sy'n rheoli coed ar y briffordd, ac mae ganddo raglen reoli tymor hir o dan oruchwyliaeth tyfwr coed cymwysedig.

**Os hoffech chi gael rhagor o wybodaeth am goed mewn Ardaloedd Cadwraeth neu Orchmynion Cadw Coed cysylltwch â Swyddog Cadwraeth Coed yr Awdurdod Lleol ar (029) 2087 3178.**

# atodiad 3

## Adeiladau Rhestredig yn yr Ardal Gadwraeth

Rhestrwyd nifer o adeiladau a strwythurau yn yr Ardal Gadwraeth yn adeiladau o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig gan cadw. Mae hyn yn berthnasol i bob rhan o'r adeilad, gan gynnwys gwrthrychau a strwythurau, mewnol neu allanol, beth bynnag fo'u gradd ar y rhestr a boed y nodwedd dan sylw wedi'i enwi ai peidio yn y disgrifiad ar y rhestr. Gall hefyd fod yn gymwys i adeiladau cysylltiedig sydd o fewn cwrtil y prif adeilad a gall gynnwys y waliau ffiniol.

Mae angen Caniatâd Adeilad Rhestredig pan fo cynnig ar gyfer dymchwel, addasu neu estyniad sy'n effeithio ar ddiddordeb arbennig adeilad sydd wedi'i restru'n statudol. Cofiwch: Mae'n drosedd cyflawni gwaith i adeilad a restrwyd yn statudol heb gael y Caniatâd Adeilad Rhestredig angenrheidiol yn gyntaf.

Mae'r adeiladau canlynol ar Restr Cadw o Adeiladau o Ddiddordeb Pensaernïol neu Hanesyddol:

- Yr Eglwys Undodaidd, West Grove – Rhestredig Gradd 2
- Labordy Dadansoddwyr Cyhoeddus Morgannwg Ganol, The Parade – Rhestredig Gradd 2
- Coleg Glan Hafren, The Parade - Rhestredig Gradd 2
- Eglwys Bedyddwyr Tredegarville, The Parade – Rhestredig Gradd 2
- Yr Hen Gwfaint, The Walk - Rhestredig Gradd 2
- Y Plasty, West Grove - Rhestredig Gradd 2
- Y Ffoli Megalithig yn James Howell House, The Walk - Rhestredig Gradd 2
- Y blwch llythyrau ar ffurf piler, West Grove - Rhestredig Gradd 2

**Mae gwybodaeth a chanllawiau ynghylch adeiladau rhestredig ar gael ar wefan y Cyngor yn www.caerdydd.gov.uk neu drwy gysylltu â Thîm Cadwraeth y Cyngor ar (029) 2087 348585.**

# Geirfa

| | |
|---|---|
| **Coedwigaeth** | Mewn perthynas â choed. |
| **Carreg nadd** | Carreg sydd wedi'i naddu neu ei thorri i ffurf sgwâr. |
| **Estyll Tywydd** | Byrddau pren a osodir ar dalcen to. Gallant fod â manylion addurnol. |
| **Cadw** | Yr isadran o Lywodraeth Cynulliad Cymru sy'n gyfrifol am yr amgylchedd hanesyddol. |
| **Ffenestri Dormer** | Ffenest gyda tho wedi ei gosod ar do goleddol. |
| **Talcen** | Y rhan siâp triongl o wal ochr adeilad, sy'n cynnal y to. |
| **Adeilad rhestredig** | Adeilad neu strwythur arall o bwysigrwydd pensaernïol neu hanesyddol sylweddol, sydd wedi ei amddiffyn yn statudol gan Cadw. |
| **Morter** | Deunydd a ddefnyddir wrth adeiladu i lenwi'r bylchau rhwng cerrig neu frics a'u huno at ei gilydd. |
| **Conglfeini** | Cerrig neu frics a ddefnyddir fel nodwedd addurnol i dynnu sylw at gorneli adeilad. Fe'u gosodir fel arfer mewn patrwm bach a mawr am yn ail. |
| **Rendro** | Gorchudd plastr, calch neu sment ar waliau allanol. |
| **Stwco** | Plaster neu sment â graen mân a ddefnyddir i orchuddio waliau. |
| **Gorchymyn Cadw Coed** | Gorchymyn Cadw Coed - mae'n amddiffyn y coed a nodir yn y gorchymyn. |
| **Golygfa** | Golygfa ganolig i bell. |

# atodiad 5 adolygu'r ffin

Mewn adolygiad o gymeriad hanesyddol a phensaernïol yr Ardal Gadwraeth, canfuwyd y canlynol:

- Dylai'r bloc hirsgwar sydd ag adeilad Rhestredig Gradd 2 Coleg Glan Hafren yn ei ganol barhau yn graidd i'r Ardal Gadwraeth.

- Mae Trinity Court, Rhifau 36 a 33 The Parade, St Peters Street a'r Rheilffordd oll yn gwasanaethu fel ffiniau terfyn eglur i'r Ardal Gadwraeth.

- Mae rhannau o Adeilad Trevithick Prifysgol Caerdydd (gweler y cynllun isod) sy'n aros yng nghornel dde-orllewinol yr Ardal Gadwraeth wedi'u hynysu oddi wrth y strydoedd cyfagos ac o wahanol raddfa, arddull a chyfnod. Mae'n anodd cyfiawnhau eu cadw o fewn yr Ardal Gadwraeth.

- Mae Speakers House (40-46 Princes Court) yn gydnaws ag arddull pensaernïol yr Ardal Gadwraeth ac y dylai aros oddi mewn iddi. Fodd bynnag, mae 47-82 Princes Court (gweler y cynllun isod) o gyfnod adeiladu gwahanol a byddai'n anodd cyfiawnhau ei gadw o fewn yr Ardal Gadwraeth.

- Mae Richmond Road a Richmond Crescent wedi'i haddasu'n helaeth. Ni ellid cyfiawnhau estyn yr ardal gadwraeth tua'r gogledd.







- Mae cymeriad ac ansawdd manylion pensaernïol hanesyddol yn newid yn Richmond Road and Princes Court

## Addasiadau'r Ffin mabwysiadwyd Rhagfyr 2008



# Ffynonellau a Dogfennau Cyfeiriol


- Cardiff Yesterday, Rhif 6 – Stewart Williams (1983)
- Gwerthusiadau Strategaeth Canol y Ddinas, ardal Tredegarville Cyngor Sir Caerdydd, Mawrth 2006
- Deddf Cynllunio Gwlad a Thref (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990
- Strategaeth Canol y Ddinas 2007 – 2010. Cyngor Sir Caerdydd, 2007
- Canllaw Dylunio i Ddeiliaid Tai. Cyngor Dinas Caerdydd, 2007
- Cynllun Lleol Dinas Caerdydd Cyngor Sir Caerdydd, 1996
- Cynllun Datblygu Unedol Caerdydd (Wedi'i Adneuo) Cyngor Dinas Caerdydd, 2003


# Diolchiadau


Archifdy Morgannwg.

Cadw: Henebion Cymru.

Y Gymdeithas Fictoraidd.


# Manylion Cyswllt a Gwybodaeth:


Y Tîm Cadwraeth, Cynllunio Strategol,
Cyngor Dinas a Sir Caerdydd, Ystafell 227,
Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd,
Caerdydd. CF10 4UW.
Ffôn: (029) 2087 3485

Am fanylion cyswllt a gwybodaeth:

Y Tîm Cadwraeth
Cynllunio Strategol a'r Amgylchedd
Dinas a Sir Caerdydd,
Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd,
Caerdydd. CF10 4UW.
Ffôn: (029) 2087 3485